

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 20 Mai 2021 Amser y cyfarfod: 9.30-12.20

Lleoliad: Microsoft Teams:
[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)
[+44 29 2105 5545,,689847054#](#)

Arsylwyr:

Amser	Eitem
9.30 (5 munud)	1. Agor y cyfarfod <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datgan buddiannau• Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod <p>Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p>
9.35 (5 munud)	2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 24 Mawrth 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus <p>Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p>
9.40 (10 munud)	3. Diweddariad gan y Cadeirydd <p>Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw</p> <p>Crynodeb: Y Cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd</p>
9.50 (20 munud)	4. Adroddiad y Prif Weithredwr <p>Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p> <p>Crynodeb: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol cyfredol</p> <p>Cyflwyniad yn unig</p>
10.10 (20 munud)	5. Adroddiad diweddarau y pwyllgorau <p>Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau</p> <ul style="list-style-type: none">• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 22 Ebrill

Cyfeirnod y papur: 21-05-B08

- Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 16 Ebrill – ar agenda'r diwrnod preifat
- Y Pwyllgor Cyllid – 20 Ebrill

Cyfeirnod y papur: 21-05-B09

- Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd - 23 Ebrill

Cyfeirnod y papur: 21-05-B10

- Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau – Amh.
- Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – Amh.

Crynodeb: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau diweddar y pwyllgorau

**10.30
(10 munud)**

6. Adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Cyfeirnod y papur: 21-05-B11

**10.40
(15 munud)**

Egwyl

**10.55
(10 munud)**

7. Newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: Cymeradwyo newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol

Cyfeirnod y papur: 21-05-B12

**11.05
(45 munud)**

8. Cyflwyniad 'Lle'

Noddwr: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Cyflwynydd: Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru; Aneurin Cox, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau; Andy Robinson, Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd Canol De Cymru; Tim England, Rheolwr Gweithrediadau (Rheoli Llifogydd a Dŵr); Scott Squires, Rheolwr Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni; Fiona Abbott, Arweinydd Tîm, Polisi Ymbelydredd a Diwydiant

Crynodeb: Darparu trosolwg ar weithgareddau allweddol yn rhanbarth Canol De Cymru

Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd

11.50
(30 munud)

9. Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

12.20

Diwedd y cyfarfod

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus
Roedd Pawb yn Bresennol dros Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 24 Mawrth 2021

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol: Syr David Henshaw (Cadeirydd)
Clare Pillman, Prif Weithredwr
Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd
Karen Balmer
Catherine Brown
Julia Cherrett
Geraint Davies
Howard Davies
Dr Elizabeth Haywood
Zoë Henderson
Dr Rosie Plummer
Yr Athro Peter Rigby

Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru (Yn dirprwyo ar gyfer Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau)
Elsie Grace, Rheolwr Datblygu Busnes Masnachol – Eitemau 6 a 7
Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol – Eitemau 6, 7, 8, 14
Victoria Rose-Piper, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Busnes – Eitem 7
Neil Stoddart Rheolwr Gwerthiannau a Marchnata – Eitem 7
Dominic Driver, Y Pennaeth Stiwardiaeth Tir – Eitem 7
Paul Johnston, Rheolwr Gwerthiannau Pren a Marchnata – Eitem 7
Dave Powell, Rheolwr Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain – Eitem 8
Paula Harley, Rheolwr Gweithrediadau (Tir ac Asedau) – Eitem 8
Keith Ivens, Rheolwr Gweithrediadau (Rheoli Lliffddwr) – Eitem 8
Nick Thomas, Prif Gynghorydd (Prosiectau Strategol) – Eitem 8
Mark Hughes, Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd – Eitem 8
Andrew Lucas, Swyddog Asesu Amgylcheddol – Eitem 9

Ben Wilson, Uwch-reolwr Rhaglenni – Adnewyddu COVID – Eitem 10
Martin Parkinson, Y Pennaeth TGCh – Eitem 10
Moira Reynolds, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol – Eitem 11
Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad – Eitem 11
Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol – Eitem 11
Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl – Eitem 13
Rachael Holbrook, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol – Eitem 13
Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru – Eitem 14
Gavin T Jones, Arweinydd Tîm – Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni – Eitem 14
Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer – Eitem 14

Arsylwyr: Mariella Scott, Cynorthwydd Personol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Datblygu Corfforaethol (y bore yn unig)
Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol – Eitemau 1 i 7 ac 11
Mike Whitley – Arweinydd Tîm Rheoli Tir a Gweithrediadau mewn Coedwigoedd (Eitem 7)
Gareth Wardell
Edward Clarke
Jack Hanbury
Berry Jordan
Frank Elsworth

Datganiadau: Dr Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; Ymddiriedolwr Canolfan y Dechnoleg Amgen, Ymddiriedolwr Plantlife International; prosiect adeiladu cymunedol
Zoë Henderson – Aelod o Bwyllgor Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Howard Davies – Prif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; Cymrawd o Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau
Julia Cherrett – Aelod o Fwrdd Grŵp Pobl
Dr Elizabeth Haywood – Aelod o Fwrdd Grŵp Hendre
Geraint Davies – Cyfarwyddwr Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwylt Cymru; Cyfarwyddwr ar gyfer Partneriaeth Penllyn, Aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Aelod o'r RSPB, Aelod o Undeb Amaethwyr Cymru; Aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru); Aelod o Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helfeydd a Bywyd Gwylt

Ymddiheuriadau: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.

Ysgrifenyddiaeth: Natalie Williams
Jocelyn Benger
Rhiannon Spencer

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chrosawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant yn ystod y cyfarfod, fel y nodir uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 20 Ionawr

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr, a chytunwyd arnynt yn amodol ar wneud mân addasiadau.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu

1. Adolygwyd a chytunwyd ar y cofnod gweithredu.

Eitem 3: Busnes y Cadeirydd

2. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y gwaith Adferiad Gwyrdd gyda Llywodraeth Cymru, gan ddweud bod £3 miliwn wedi'i sicrhau i'w ddefnyddio ar eitemau Adferiad Gwyrdd, a oedd i'w wario cyn diwedd y flwyddyn. Roedd cyfarfod am gael ei gynnal i gytuno ar y camau nesaf a'r ffordd ymlaen. Byddai galwad am syniadau newydd yn cael ei gyflwyno, ond gan symud oddi wrth brosiectau.
3. Nodwyd y newidiadau i'r Bwrdd. Roedd Chris Blake wedi ymddiswyddo o fod yn aelod o'r Bwrdd ac, o ganlyniad, amlinellodd Cadeirydd CNC y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r pwyllgorau. Roedd y broses o recriwtio tri aelod newydd i'r Bwrdd wedi'i chymeradwyo gan y Gweinidog.

Eitem 4: Adroddiad y Prif Weithredwr

4. Darparodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd, i ddechrau, yn edrych yn ôl ac yn myfyrio ar rai o'r heriau a wynebasid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig effaith y pandemig a'r symudiad i weithio yn seiliedig ar Leoedd, ynghyd â'r atgyweiriadau a oedd yn angenrheidiol yn dilyn Storm Ciara. Er gwaethaf blwyddyn heriol, roedd swm nodedig o waith a nodwyd yn y Cynllun Busnes wedi cael ei gyflawni. Roedd cyllid cyfalaf ychwanegol i symud ymlaen gyda gwaith ar ansawdd dŵr wedi dod i law, roedd yr Adroddiad SoNAR wedi cael ei lunio a'i gyhoeddi, ac roedd prosiectau mawr wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys cynllun amddiffyn rhag llifogydd Crindai, Ffordd Goedwig Cwm-carn a Chasnewydd.
5. Roeddid wedi ymateb i ddigwyddiadau sylweddol, gydag enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth yn amlwg. Roedd adolygiad barnwrol Wild Justice wedi canfod bod Trwyddedau Cyffredinol i reoli adar gwyllt yn gyfreithlon. Roedd y gwasanaeth trwyddedu cymhleth ym Morlais yn mynd rhagddo, ac roedd penderfyniad diweddar ynghylch rhyddhau afancod ger Machynlleth wedi cael ei gadarnhau. Roedd llifogydd wedi dominyddu rhan gyntaf y flwyddyn, ac roedd y gwaith gweithredu yn dilyn ar adolygiad o lifogydd yn parhau.
6. Roedd CNC wedi ennill mwy a chyflawni mwy nag mewn unrhyw flwyddyn arall; fodd bynnag, bu'n rhaid lleihau rhai prosiectau, a nodwyd heriau gwirioneddol o ran ansawdd dŵr a phwysau ar safleoedd yn dilyn codi'r cyfyngiadau symud. Bu'r berthynas â Llywodraeth Cymru yn un gynhyrchiol.

7. Llwyddwyd i benodi staff eleni, a ffarweliwyd â Richard Ninnes ac Isobel Moore, a diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau at waith CNC. Canmolwyd ymateb y staff i'r pandemig ac i'r ymadawiad o'r UE.
8. Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn honno wedi cael ei ddrafftio, a dyrannwyd y gyllideb fwyaf yn ei hanes i CNC; fodd bynnag, byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd o hyd. Byddai'r gwaith ym maes Adferiad Gwyrdd yn parhau gyda'r Llywodraeth newydd, a nodwyd bod yr amgylchedd yn cael llawer o sylw gan yr holl brif bleidiau. Byddai'r COP 26 yn darparu cyfeiriad i lunio'r ffordd ymlaen tuag at gyflawni o ran lleihau carbon a chynyddu llesiant.
9. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd sut yr oedd CNC yn annog cydweithrediad â sefydliadau eraill, a rhoddwyd gwybod iddynt am enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth trwy gydol y pandemig. Cydnabuwyd, serch hynny, fod rhai partneriaid wedi cael trafferth. Rhagwelid y byddai ymgysylltu personol yn digwydd yn y sefydliad a'r tu allan iddo yn y dyfodol, pan fyddai hynny'n ddiogel. Gwnaed awgrymiadau mewn perthynas â digwyddiadau i ddod â thimau ynghyd y tu allan, fel cam cychwynnol.
10. Cymeradwyodd y Bwrdd y diolch a'r gydnabyddiaeth o'r cyflawniadau yn ystod y cyfnod eithriadol o anodd hwn. Cydnabuwyd y byddai heriau ychwanegol yn dod yn sgil COVID, ac y byddai sesiwn pwysu a mesur a myfyrio, felly, yn ddefnyddiol.

CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i holi pwy a fyddai ar gael ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ffocysu ar fyfyrion a'r heriau yn y dyfodol yn sgil COVID.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau

11. Nodwyd adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror.
12. Nodwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gyfer 2020-21. Diolchodd Cadeirydd ARAC i bawb a oedd yn ymwneud ag ARAC am eu gwaith caled yn ystod cyfnod heriol. Amlinellodd y Cadeirydd rai o'r materion a brofwyd mewn perthynas â gosod amod ar y cyfrifon am resymau hanesyddol, yn ogystal â thuedd optimistiaeth ac adrodd yn ormodol ar gynnydd. Roedd cymorth allanol ar gyfer archwilio yn cael ei groesawu, ac roedd y gwaith o ailstrwythuro'r Tîm Archwilio yn mynd rhagddo. Dywedodd y Cadeirydd fod cynnydd cadarnhaol wedi bod o ran cydymffurfedd a sicrwydd. Roedd y Prosiect Tair Llinell Amddiffyn ar waith, a hynny dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, ac roedd ei ffocws ar brosesau a gweithdrefnau cadarn, goruchwyliaeth gan reolwyr, ac archwilio mewnol ac allanol, fel ei gilydd.
13. Roedd yna awydd i gyfarfodydd ARAC gael eu cynnal yn gyhoeddus er mwyn galluogi tryloywder gwirioneddol, a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach maes o law.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gyfer 2020-21 i'w gyhoeddi.

14. Nodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror. Roedd y pwyllgor hwn wedi trawsnewid yn Bwyllgor Cyllid ers hynny, ac wedi cyfuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid.
15. Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thâl (PaRC) ddiweddariad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys ymadael â'r UE, COVID, Cydgymorth, a'r hyn a ddysgwyd oddi wrth barhad busnes. Roedd yna ffocws ar lesiant staff, ac roedd gliniaduron sbâr wedi cael eu cynnig i helpu addysg yn y cartref.

Trafodwyd cynllunio'r gweithlu, ynghyd â goblygiadau'r Rhaglen Adnewyddu ar gyfer y llwyth gwaith Datblygu Gweithredol. Tynnwyd sylw at y prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Diverse Cymru, ac anogwyd aelodau'r Bwrdd i lenwi'r holiadur a oedd wedi cael ei ddsbarthu'n flaenorol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon neges e-bost at y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i'w hatgoffa i lenwi'r holiadur Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Eitem 6: Strategaeth Fasnachol

Elsie Grace, Rheolwr Datblygu Busnes Masnachol

Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

16. Darparwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol, yn tynnu sylw at y cyfle i symud Strategaeth Fasnachol gyntaf CNC yn ei blaen y flwyddyn honno, gydag egwyddorion Pobl, Planed a Ffyniant ar flaen y gad.
17. Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Busnes Masnachol drosolwg o'r strategaeth, a oedd wedi cael ei datblygu oddi ar fis Ionawr 2020. Roedd mewnbynnau gwerthfawr o ran cyfleoedd, cryfderau a gwendidau wedi cael eu casglu gan gyd-weithwyr, partneriaid allanol a'r cyhoedd, gan arwain at strategaeth ymbarél a oedd yn cwmpasu gwahanol weithgareddau masnachol CNC. Byddai'r cyfarfod cyntaf o'r bartneriaeth fasnachol yn cael ei gynnal ym mis Mai. Roedd ffocws y strategaeth ar lywodraethu a'r gallu i addasu. Roedd mesurau yn cael eu datblygu, ac roeddid eisoes yn ymgysylltu â'r Rhaglen Adnewyddu. Diolchwyd i'r Bwrdd a'r holl bartneriaid allanol a oedd wedi cymryd rhan yn y broses.
18. Cafodd y gwaith hwn groeso cynnes gan y Bwrdd, a oedd yn cydnabod yr arloesedd a'r gwaith partneriaeth da. Nodwyd y byddai'r gwaith yn parhau ar flaenoriaethau. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg ymddangosol o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar y maes hwn, gyda mwy o ffocws ar gynyddu cyfleoedd mynediad ar gyfer grwpiau amrywiol. Cytunwyd y dylai pwyslais y Strategaeth fod yn seiliedig ar optimeiddio cyfraniadau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol gweithgareddau masnachol CNC, yn hytrach nag ar 'sichau'r gwerth mwyaf'. Ystyrid hefyd y dylai'r hyn a ddysgwyd o'r Prosiect Skyline gael ei ymgorffori ar draws y Cynllun Gwerthiant Pren a'r Strategaeth Fasnachol, fel ei gilydd, ac y dylai'r cyflwyniad gynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r angen am Strategaeth Fasnachol.
19. Yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol y byddai Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb trosfwaol yn cael ei ddatblygu, ynghyd ag Asesiadau ychwanegol i gwmpasu pob maes yn y Strategaeth, ac y byddai sylwadau'r Bwrdd yn cael eu cynnwys. Nodwyd hefyd fod y gwaith i gryfhau'r Tîm Masnachol yn parhau, a bod y broses o recriwtio'r Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy yn mynd rhagddi.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Fasnachol i'w chyhoeddi a'i lansio ym mis Ebrill 2021, a hynny'n amodol ar y diwygiadau a drafodwyd ac a fyddai'n cael ei ddsbarthu i'r Bwrdd er gwybodaeth.

Eitem 7: Cynllun Marchnata Gwerthiannau Pren

Victoria Rose-Piper, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Busnes

Neil Stoddart Rheolwr Gwerthiant a Marchnata

Dominic Driver, Y Pennaeth Stiwardiaeth Tir

Paul Johnston, Rheolwr Gwerthiannau Pren a Marchnata

Elsie Grace, Rheolwr Datblygu Busnes Masnachol

Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

20. Darparwyd cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol, yn nodi materion tebyg i'r Strategaeth Fasnachol a drafodwyd yn yr eitem flaenorol. Roedd yr uchelgais yn glir, ond roedd y modd y byddai hyn yn cael ei gyflawni yn destun trafodaeth barhaus â Llywodraeth Cymru. Nod y Cynllun oedd darparu sefydlogrwydd a hyblygrwydd, ond gyda chyfeiriad clir.
21. Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Busnes y broses o ddatblygu'r Cynllun, gan nodi bod ymateb da wedi bod i'r ymarfer ymgynghori. Y cynllun hwn oedd y cynllun pum mlynedd cyntaf mewn rhaglen 10-15 mlynedd. Un thema allweddol oedd nodi ffyrdd newydd o weithio a fyddai'n darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i CNC a chwsmeriaid, fel ei gilydd. Roedd y defnydd o bren o Gymru i adeiladu yng Nghymru yn cael ei archwilio, a byddai gwaith yn parhau gyda chwsmeriaid i gefnogi'r holl bartïon i fynd ati i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chyflawni egwyddorion Pobl, Planed a Ffyniant.
22. Cafwyd trafodaeth, a gofynnodd aelodau'r Bwrdd am i sylw gael ei roi i bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau ac ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r Prosiect Skyline. Cytunwyd bod angen tynnu sylw at y buddion anfasnachol, er enghraifft gwerth cymdeithasol, ac y dylai'r rhain fod yn amlwg yn y Crynodeb Gweithredol, ynghyd â chyfeiriad at yr argyfwng newid hinsawdd. Nododd aelodau'r Bwrdd yr anghenraid i fod yn gadarn wrth weithio trwy fecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn ystod y flwyddyn i ddod.
23. Mynegwyd pryderon ynghylch pwysigrwydd gwerthiannau ymyl y ffordd i weithredwyr llai, ond rhoddwyd tawelwch meddwl y byddai'r rhain yn parhau, ac eglurwyd yr angen am hyblygrwydd yn y maes hwn. Trafodwyd yr angen i sicrhau tryloywder ynghylch y broses ar gyfer delio â gwerthiant mewn amgylchiadau eithriadol. Nodwyd bod safonau llywodraethu cadarn ar waith erbyn hynny i gwmpasu Gwerthiannau Ymyl y Ffordd a Gwerthiannau Coed sy'n Sefyll.
24. Nodwyd bod y Cynllun yn galluogi hyblygrwydd i ymateb i heriau yn y dyfodol, a bod y tîm yn cael ei atgyfnerthu trwy ychwanegu'r Rheolwr Gwerthiannau Pren a Marchnata newydd, a gafodd ei groesawu gan y Bwrdd.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd y Cynllun Gwerthiannau Pren a Marchnata i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2021, a hynny'n amodol ar y diwygiadau a drafodwyd.

Eitem 8. Cyflwyniad Lleoedd

Cyflwynydd: Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain

Yn bresennol: Dave Powell, Rheolwr Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain,

Paula Harley, Rheolwr Gweithrediadau (Tir ac Asedau),

Keith Ivens, Rheolwr Gweithrediadau (Rheoli Llifddwr),

Nick Thomas, Prif Gynghorydd (Prosiectau Strategol)

Mark Hughes, Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd

Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

Arsylwr: Andrew Lucas, Swyddog Asesu Amgylcheddol

25. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain gyflwyniad a oedd yn darparu trosolwg o'r timau yn ardal y Gogledd-ddwyrain ac yn amlygu rhai o'r safleoedd allweddol a'r materion arwyddocaol. Dywedwyd wrth y Bwrdd am siarter seiliedig ar leoedd Gogledd-ddwyrain Cymru, a oedd wedi'i chreu gydag arweinwyr timau i symud gwerthoedd ac ymddygiadau CNC yn eu blaen, gan ganolbwyntio ar weithio ar y cyd, sefydlu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a phum amcan yn seiliedig ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nodwyd yr her o ran newid y modd o ymgysylltu o wyneb yn wyneb i ddull rhithwir yn ystod y cyfyngiadau symud, ond roedd y tîm wedi cyflawni hyn yn

llwyddiannus. Roedd yna frwydr barhaus rhwng gwaith adweithiol a gwaith wedi'i gynllunio, ynghyd â materion gallu.

26. Amlygwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth ymdrechu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rhoddwyd trosolwg o'r prosiect DeeLIFE, ac amlinellwyd y defnydd llwyddiannus o amrywiaeth o gyfryngau i gysylltu â'r rheiny na fyddai fel arfer yn ymgysylltu ag CNC. Nodwyd yr her o ran y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â safleoedd penodol, ynghyd â'r gwaith o reoli rhai o'r heriau hyn.
27. Roedd enghreifftiau eraill o waith yn y Gogledd-ddwyrain yn cynnwys partneriaethau rheoleiddiol a gwaith parhaus i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o brofiadau blaenorol, ynghyd â pharhau i gydweithredu â phartneriaid gwleidyddol i fynd i'r afael â materion cymunedol. Mynegwyd materion yn ymwneud â llifogydd, a nodwyd y byddai adnoddau cyfyngedig yn gofyn am i ddisgwyliadau gael eu rheoli wrth weithio ar y cyd â phartneriaid gwleidyddol a phroffesiynol i ddeall rolau a chyfrifoldebau, ac i alluogi cymunedau i fod yn fwy cydnerth. Roedd strategaeth gyfathrebu wedi cael ei datblygu i'w defnyddio yn ystod y digwyddiad nesaf.
28. Diolchodd y Bwrdd am gyflwyniad amrywiol a diddorol. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y datblygiad ynni'r llanw arfaethedig ar y Ddyfrdwy, a nodwyd bod CNC yn cymryd rhan yn y broses. Cytunwyd y dylai eitem at bŵer morol gael ei chynnwys ar agenda yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys eitem ar faterion morol ar agenda'r Bwrdd ar gyfer naill ai mis Gorffennaf neu fis Medi.

29. Trafodwyd gwerth y siarter seiliedig ar leoedd, a nodwyd bod hyn wedi cael ei rannu ledled Gweithrediadau. Roedd y swyddi gwag yn y tîm lifogydd wedi cael eu llenwi, ar y cyfan, er bod ychydig o rolau technegol yn dal i fod yn wag. Mynegodd aelodau'r Bwrdd ddiddordeb mewn cynnal ymweliad safle yn ardal y Gogledd-ddwyrain.

CAM GWEITHREDU: Ar y cyd â chyfarfod nesaf y Bwrdd a fyddai'n cael ei gynnal yn y Gogledd-ddwyrain, yr Ysgrifenyddiaeth i gydlynu ymweliad safle â'r Gogledd-ddwyrain ar gyfer aelodau'r Bwrdd, a fyddai'n canolbwyntio ar y prosiect DeeLIFE.

Eitem 9. Cyflwyno Tystiolaeth

Cyflwynydd: Andrew Lucas, Swyddog Asesu Amgylcheddol

30. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Gobeithid y gallai cynhadledd dystiolaeth wyneb yn wyneb gael ei chynnal yn yr hydref. Pe na fyddai hynny'n bosibl, byddai'n cael ei chynnal ar ffurf rhith-gyfarfod.
31. Rhoddwyd cyflwyniad gan y Swyddog Asesu Amgylcheddol, sef 'Don't treat soil like dirt: using soil eDNA to monitor grassland fungi'. Disgrifiwyd pwysigrwydd monitro i ddarparu tystiolaeth o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ynghyd â'r anawsterau penodol o fonitro ffyngau, ac eglurwyd buddion posibl defnyddio technegau adnabod eDNA.
32. Trafodwyd y Prosiect a'i ganlyniadau yn fanwl. Cydnabu aelodau'r Bwrdd y cyfleoedd i waith eDNA gael ei gynyddu'n rhwydd, ynghyd â'r potensial i'w ddefnyddio ar draws amrywiaeth eang o brosiectau monitro. Nodwyd pwysigrwydd mynd bob yn gam â thechnolegau newidiol. Roedd canlyniadau'r prosiect yn amlygu gwerth gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion Cymru, gan fanteisio i'r eithaf ar eu sgiliau a'u cyfleusterau.

Eitem 10. Y Rhaglen Adnewyddu

Ben Wilson, Uwch-reolwr Rhaglenni – Adnewyddu COVID
Martin Parkinson, Y Pennaeth TGCh

33. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid. Byddai'r rhaglen yn dilyn cyfeiriad strategol ac yn cynnwys llywodraethu er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n mynd rhagddynt mewn ffordd a fyddai'n canolbwyntio ar gyflawni. Byddai achos busnes yn cael ei ddatblygu, gyda chanlyniadau a mesurau canfyddadwy y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolios yn craffu arnynt. Byddai hyn yn cael ei gyflawni yn rhan o Busnes Fel Arfer er mwyn hwyluso'r broses a sicrhau effeithlonrwydd ar yr un pryd.
34. Cyflwynodd yr Uwch-reolwr Rhaglenni – Adnewyddu COVID drosolwg o'r broses, gan enghreifftio'r ffrydiau gwaith trawsbynciol, a oedd yn cynnwys: adnoddau dynol a materion contractau, technoleg ac adnewyddu seilwaith; polisïau teithio diwygiedig a newidiadau i'r fflyd; llety; cyfleoedd masnachol a chaffael; adolygu a symleiddio prosesau; cyfathrebu ac ymgysylltu.
35. Ystyriwyd yn fanwl broblemau a buddion datblygu hybiau gyda sefydliadau partner. Byddai'n bwysig dysgu o'r hyn yr oedd sefydliadau eraill wedi bod yn ei wneud, yn ogystal â myfyrio ar yr hyn y gallai partneriaethau helpu CNC i'w gyflawni. Mynegwyd pryderon ynghylch yr angen i gydnabod materion cydraddoldeb mewn perthynas â newid gweithle'n barhaol, ynghyd ag am y modd y gallai hyn gael ei fynegi mewn ffordd ystyriol. Cydnabuwyd y pwysau ar gynllunio'r gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ond nodwyd bod yr adrannau hyn yn cydweithio â'r Rhaglen Adnewyddu.
36. Mynegwyd pryderon ynghylch y term 'arweinyddiaeth â gweledigaeth' a pha un a ellid defnyddio 'gwrando a gweithio'n galed i sicrhau bod gwersi'r gorffennol yn cael eu dysgu' yn ei le. Byddai angen pwyll wrth i CNC ei bortreadu ei hun yn 'arwain y ffordd'.
37. Byddai angen ehangu ar y defnydd o'r gair 'cyfiawn' mewn perthynas ag adferiad, a hynny er mwyn esbonio'r weledigaeth yn iawn. Dylid ystyried ffocws mwy allanol, gan roi ystyriaeth i faterion cwsmeriaid a'r modd i sicrhau bod CNC y fwy hygyrch. Byddai hefyd yn bwysig cydnabod y dylai staff y rheng flaen gael eu hannog yn y maes hwn, ond byddai angen darparu lle a hyfforddiant i wneud hyn.
38. Roedd y ffrydiau gwaith trawsbynciol yn amlygu dyfnder y newid strwythurol ac ymddygiadol a fyddai'n ofynnol. Dylid nodi a mynd ar drywydd eitem allweddol neu ddwy a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, ond heb fynd yn orddibynnol ar fecanweithiau tebyg i TG a chan gofio gwerth yr elfen ddynol. Byddai angen i'r rhaglen fod y hyblyg, gyda systemau wedi'u hymgorffori a fyddai'n gallu delio â newidiadau yn y dyfodol. Dylai newid gael ei weithredu ar y cyd â staff rheng flaen.
39. Crynhowyd y trafodaethau, a nodwyd bod angen creu'r cydbwysedd cywir ar draws themâu, gan gyflawni peth newid ond trwy ddull meddylgar, gofalus. Cytunwyd y dylai ffrydiau gwaith y Rhaglen osod y targedau, gan anelu rheolaeth ystyriol o'r rhaglen at gyflawni, ac y dylid adrodd ar gynnydd yn unol â'r targedau hyn i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y Bwrdd weledigaeth gyffredinol ac amcanion strategol y Rhaglen Adnewyddu yn amodol ar rai addasiadau, fel y trafodwyd.

CAM GWEITHREDU: Y Rhaglen Adnewyddu i gael ei hadolygu i gynnwys y diwygiadau a drafodwyd gan y Bwrdd, ac i ddatblygu'r broses o osod targedau a rheoli'r rhaglen cyn dychwelyd ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Eitem 11. Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes 2020-21

Moira Reynolds, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol
Sue Ginley, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol

40. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem, gan roi adroddiad am eithriadau Chwarter 3. O'u mesur yn unol â'r blaenoriaethau strategol, ni nodwyd yr un yn goch, nodwyd saith yn oren, ac wyth yn wyrdd. Nodwyd ugain yn llwyd (h.y. nid adroddid arnynt yn y chwarter hwnnw). Manylwyd ar y mesurau ar gyfer y Bwrdd, ac esboniwyd y sgoriau. Byddai mesurau terfynol y flwyddyn yn cael eu darparu i'r Bwrdd ym mis Mai, ac yna'u cynnwys yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf.
41. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a ddylai'r ymateb i'r argyfwng natur gael ei ystyried yn 'wyrdd' ac a oedd angen rhagor o her ynghylch y mater hwn. Cytunwyd y byddai angen myfyrio ymhellach ar hyn. Nodwyd bod y Cynllun yn glir ac yn hygyrch iawn, a bod y Cais am Gamau Unioni sylweddol a grybwyllid yn yr adroddiad wedi cael ei ddatrys.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Chwarter 3 i'w gyhoeddi.

Eitem 12. Cynllun Statudol a Chyfreithiol

Colette Fletcher, Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

42. Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr eitem, gan amlinellu cynnwys y diweddariad i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol. Roedd yn ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol.

Eitem 13. Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

43. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem, a darparodd drosolwg o'r sefyllfa gyfredol, ynghyd â'r camau ychwanegol yr oedd angen i CNC eu cymryd rhwng yr adeg honno a 2024. Roedd ymgynghorydd wedi cael ei gyflogi, ac roedd wrthi'n ymgysylltu â'r staff, cymunedau a rhanddeiliaid i ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) mewn ystyr ehangach.
44. Gofynnodd y Bwrdd am gael mynediad at yr hyfforddiant ar niwroamrywiaeth, gan nodi'r diffyg amrywiaeth yn y maes amgylcheddol a chwestiynu sut y gellid gwella ar hyn.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i sicrhau bod gan y Bwrdd fynediad at yr hyfforddiant ar niwroamrywiaeth.

45. Nodwyd bod rhan hanfodol o Weledigaeth 2050 yn ymwneud â'r modd i ddatblygu'r weledigaeth ac ymgysylltu y tu allan i'r mecanweithiau safonol. Roedd sgysiau'n cael eu cynnal â chyrrff proffesiynol gwahanol a Chyrrff Anllywodraethol Amgylcheddol a oedd wedi dangos diddordeb mewn CAC. Awgrymwyd hefyd y gellid ymgysylltu ag ysgolion er mwyn annog newid o ran safbwyntiau a phenderfyniadau ynghylch gyrfaoedd.

PENDERFYNIAD: Nododd y Bwrdd gynnydd Adroddiad Blynyddol CAC ar gyfer 2020-21, a'i gymeradwyo i'w gyhoeddi.

Eitem 14. Dysgu Gwersi o Brosiectau Rheoli Perygl Llifogydd

Cyflwynwyr: Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru, Gavin T Jones, Arweinydd Tîm – Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni

Arsylwyr: Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer, Catrin Hornung, Y Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

46. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem, ac amlinellodd yr Arweinydd Tîm – Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni y gwaith a oedd wedi cael ei wneud. Darparwyd enghreifftiau o'r ffocws o'r newydd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned wrth gyflawni prosiectau, gan weithio ochr yn ochr â'r broses o sefydlu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.
47. Roedd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ymgorffori strategaeth newydd, sef Strategaeth Profiad y Cwsmer, yn y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd. Byddai'r tîm yn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r prosiectau cyfalaf a gyflawnid gan y Tîm Cyflawni Prosiectau.
48. Amlinellwyd y dulliau o weithio gyda chymunedau nad oedd y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a byddai strategaeth gyfathrebu yn cael ei chynllunio. Nodwyd y byddai angen cynnal sgysiau ehangach ynghylch cydnerthedd cymunedol, ac y byddai'n ofynnol rheoli disgwyliadau cymunedau mewn modd sensitif.
49. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad, gan nodi bod ymateb CNC i lifogydd yn esblygu. Diolchodd y Bwrdd i'r rhai a gymerodd ran, ond tynnodd sylw at y ffaith y dylid bod wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y papur. Byddai'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau y byddai Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar bapurau'r Bwrdd yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethau ac Ysgrifennydd y Bwrdd i sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar bapurau'r Bwrdd yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

– Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben –

Eitem 15. Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

50. Cyflwynodd y Cadeirydd y sesiwn gyhoeddus, a gwahoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd y cyhoedd i ddarllen eu cwestiynau i'r Bwrdd.
51. Daeth cwestiwn i law'r Bwrdd gan Gareth Wardell:
- “Yng ngoleuni'r enghraifft ddefnyddiol mewn perthynas â Llannerch Lower Riggles ym Mloc Coedwig Maesyfed (Rhif 51377) a roddwyd i mi gan y Pennaeth Stiwardiaeth Tir, a all y Bwrdd roi sicrwydd bod yr un safon reoleiddiol yn cael ei defnyddio gan CNC ar gyfer y Llannerch benodol hon ag sy'n cael ei defnyddio yn achos pob Llannerch arall yn Ystad Coetir Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag mewn perthynas â'r cynlluniau ailgyflenwi a phlannu ar dir o eiddo preifat?”*
52. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sylw at y ffaith y byddai cynlluniau'r adnoddau coedwig yn wahanol o ran yr hyn yr oedd pob llannerch yn ei gyflenwi. Fodd bynnag, roedd Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig yn gyffredin ar draws pob llannerch. Roedd CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu amodau i grantiau er mwyn sicrhau cysondeb.
53. Dilynwyd hwn gan gwestiwn atodol, a byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn ymateb iddo y tu allan i'r cyfarfod.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i fynd ar drywydd cwestiwn ychwanegol Gareth Wardell y tu allan i'r cyfarfod.

54. Daeth cwestiwn i law'r Bwrdd gan Jack Hanbury:

“Rwy'n chwilio am gyngor gan CNC yn ei rôl o fod yn rheolwr tir. Teimlodd bob un ohonom effaith mynediad y cyhoedd y llynedd, ac efallai bod gan CNC, sy'n dirfeddiannwr allweddol, awgrymiadau ar gyfer y gweddill ohonom. Dim ond yn ystod y sesiynau agored hyn ar ôl y cyfarfodydd chwarterol y mae'r Bwrdd yn cael clywed pryderon pobl gyffredin, felly efallai y bydd gan eich aelodau anweithredol ddiddordeb yn y cwestiwn”

55. Ymatebodd Howard Davies trwy ddweud mai'r neges glir oedd y dylid croesawu defnyddwyr newydd i gefn gwlad, ond bod CNC yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael â materion, a bod gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi sefydliadau ac unigolion o ran llacio'r cyfyngiadau symud.

56. Nododd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru fod CNC yn cydnabod yr effaith yr oedd COVID yn ei chael ar y tir, a bod grwpiau partneriaeth lleol wedi cael eu sefydlu. Byddai'n cynnal trafodaeth bellach â Jack Hanbury y tu allan i'r cyfarfod.

CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru i gysylltu â Jack Hanbury ynglŷn â'i ymholiad.

57. Daeth cwestiwn i law'r Bwrdd gan Edward Clarke:

“O ystyried y gwrthwynebiad eithafol i wneud Cymru gyfan yn Barth Perygl Nitradau, gwrthwynebiad a gyhoeddwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru, y cafodd ei lythyr parod ei gopïo a'i anfon gan nifer o ffermwyr at aelodau'r Senedd, ac sydd wedi radicaleiddio nifer o ffermwyr yn erbyn cydymffurfedd, pa strategaethau y mae'r Bwrdd wedi'u rhoi ar waith i osgoi symiau enfawr o slyri rhag cael eu gwasgaru yn union cyn ac yn union ar ôl y cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwasgaru.”

58. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sylw at y ffaith bod CNC yn monitro i asesu cydymffurfedd â rheoliadau. Roedd CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio i sicrhau bod canllawiau ar gael i'r holl reolwyr tir. Ni fu unrhyw wahaniaeth mawr hyd hynny o ran amllder achosion o lygredd, ond roedd staff gweithredol yn monitro er mwyn helpu i asesu cydymffurfedd dros amser.

59. Un broblem oedd a fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu cynorthwyo ffermwyr i gydymffurfio trwy ddarparu cyllid. Nododd Zoë Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, fod yr undebau yn cymryd rhan ac yn canolbwyntio ar y modd i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith yn gywir ac mewn modd priodol. Roedd cyfathrebu yn ffocws, ac roedd y perthnasoedd gwaith cadarn â'r ffermwyr yn parhau.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol i baratoi ymateb i ymholiad Frank Elsworth, a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ymddiheuro am y gwall yn y cyfarfod a olygodd nad oedd wedi gallu cyflwyno ei gwestiwn.

– Daeth y cyfarfod i ben –

Cyfarfodydd y Bwrdd										
Rhif y cam	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn pryd	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
9	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod â Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru, ac i gynnal trafodaeth bellach â'r Bwrdd ynghylch y terfyn pedair awr ar ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020	Parhaus	Wedi'i ychwanegu at y rhestr o eitemau posibl ar gyfer trafodaeth strategol, cyflwyniadau ar Leoedd, sesiynau Tystiolaeth ac ymweliadau safle
